

CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

DYDDIAD: 11 CHWEFROR 2021

TEITL: SEFYLLFA ARBEDION

PWRPAS: Adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf

GWEITHREDIAD: Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y sefyllfa arbedion

AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS

SWYDDOG CYSWLLT: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Sefyllfa Arbedion) i'r Cabinet ar 26 Ionawr 2021.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y sefyllfa arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 26/01/2021

Adroddiad Cabinet 26/01/2021: Sefyllfa Arbedion

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	26 Ionawr 2021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	10 Chwefror 2021

PWNC

Eitem 12:SEFYLLFA ARBEDION

PENDERFYNIAD

- i. Derbyniwyd casgliadau'r Prif Weithredwr ar y cynlluniau unigol fel y'i nodwyd yn Atodiadau 1 a 2.
- ii. Yn unol â'r hyn a nodwyd yn Atodiad 1, cymeradwywyd symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,012,750 i 2022/23, a chydnabod bod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £848,040 gan eu dileu o'r gyllideb.
- iii. Defnyddio'r ddarpariaeth o £1.6m a osodwyd o'r neilltu yng nghyllideb 2020/21 er mwyn gwneud hynny, a chyflawni'r bwch gweddilliol drwy ddefnydd cyntaf o arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2021/22.
- iv. Wrth baratoi cyllideb 2021/22, cymeradwywyd symud proffil cyflawni cynlluniau gwerth £511,250 i 2022/23 a chydnabod bod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £595,450 ac y dylid defnyddio arbedion o £705,930 ar gyfer y gyllideb fel y nodwyd yn Atodiad 2.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn y Cabinet yn mis Hydref, bu i'r Cabinet ystryied adroddiad oedd yn nodi sefyllfa gyfansawdd gyda chyflawni arbedion a oedd yn cynnwys arbedion ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Amlygwyd risgiau ynghlwm a chynlluniau gwerth £3.4m, ac yn wyneb y flaenoriaeth i ymdrin â'r argyfwng Cofid, roedd yna berygl o fethu a chau'r bwch mewn cyfnod byr.

Nodwyd fod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid wedi cwrrd a'r aelodau Cabinet a'r penaethiaid i drafod sut i ail afael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig. Roedd yr adroddiad yn nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion oedd yn deillio o'r cyfarfodydd hyn.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.